

Pleidleisio drwy ddirprwy

Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu os na allwch fwrw eich pleidlais yn bersonol, y gallwch gael rhywun rydych yn ymddiried ynddo i wneud hynny ar eich rhan.

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy os na allwch bleidleisio'n bersonol oherwydd anabledd.

Ni ddylai'r ffurflen hon gael ei defnyddio os ydych wedi'ch cadw mewn ysbyty o dan Adran 145 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yng Nghymru a Lloegr neu Adran 329 o Ddeddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (yr Alban) 2003 yn yr Alban.

Yng Nghymru a Lloegr rhaid eich bod yn 18 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio i fwrw pleidlais.

Yn yr Alban rhaid eich bod yn 16 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio mewn etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban. Rhaid eich bod yn 18 oed neu drosodd mewn etholiadau i Senedd y DU a Senedd Ewrop.

Sut ydw i'n gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy?

- Rhaid i chi ofyn i rywun sy'n barod i fod yn ddirprwy ar eich rhan a phleidleisio drosoch, ac sy'n gallu gwneud hynny.
- Llenwch y ffurflen gais pleidleisio drwy ddirprwy. Rhaid i chi roi rheswm pam bod angen i chi bleidleisio drwy ddirprwy a gall fod angen i rywun cymwys lofnodi eich cais. Gweler y nodiadau ar dudalen 2 am wybodaeth am bwy all ategu eich cais.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau pob rhan o'r ffurflen ac yn rhoi eich dyddiad geni a'ch llofnod. Bydd angen i chi roi eich dyddiad geni a'ch llofnod ar y ffurflen gais hon. Mae angen y wybodaeth hon er mwyn atal twyll. Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.
- Dylech ddychwelyd eich ffurflen i'ch swyddfa cofrestru etholiadol. **Mae'r manylion a rhagor o wybodaeth ar gael yn dybleidlaisdi.co.uk**

Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol. Rhaid i'ch ffurflen gais gyrraedd eich swyddfa cofrestru etholiadol erbyn **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais** os caiff pleidlais drwy ddirprwy, pleidlais bost neu bleidlais bost drwy ddirprwy ei newid neu ei chanslo, ac erbyn **5pm, 6 diwrnod gwaith cyn y bleidlais** os gwneir cais am bleidlais drwy ddirprwy newydd.

Os nad ydych eisoes wedi cofrestru i bleidleisio, rhaid bod eich cais i gofrestru wedi cyrraedd eich swyddfa cofrestru etholiadol erbyn **hanner nos, 12 diwrnod gwaith cyn y bleidlais**.

Nid yw'r ffurflen hon na'r terfynau amser hyn yn gymwys i Ogledd Iwerddon. Ewch i eoni.org.uk am ragor o wybodaeth.

Pleidleisio fel dirprwy

Gall person ond bod yn ddirprwy ar ran perthnasau agos ac ar gyfer hyd at ddau berson arall mewn etholiad neu refferendwm.

Perthnasau agos yw gŵr/gwraig, partner sifil, rhiant, tad-cu/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn neu wŷr/wyres yr ymgeisydd.

Gall y sawl rydych yn ei wneud yn ddirprwy ond gweithredu ar eich rhan os yw'n 18 oed neu drosodd (16 neu drosodd yn yr Alban mewn etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban) ac mae wedi'i gofrestru (neu y bydd wedi'i gofrestru) ar gyfer yr etholiad neu'r refferendwm hwnnw.

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd anabledd

Pwy all ategu fy nghais?

Os ydynt yn darparu gofal neu'n eich trin oherwydd yr anabledd gall yr unigolion canlynol ategu eich cais:

- ymarferydd meddygol cofrestredig (gan gynnwys deintydd, optegydd, fferylllydd, osteopath, ceiropractydd neu seicolegydd)
- nyrs gofrestrdig
- gweithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig.

Os ydynt yn darparu gofal, yn eich trin, neu wedi trefnu gofal neu gymorth o ran yr anabledd gall eich cais gael ei ategu gan:

- weithiwr cymdeithasol cofrestredig.

Neu gall eich cais gael ei ategu gan:

- reolwr iechyd meddwl cofrestredig neu ei gynrychiolydd
- y sawl sydd wedi'i gofrestru fel rheolwr y cartref gofal preswyl rydych yn byw ynddo
- warden yr eiddo rydych yn byw ynddo a ddarperir ar gyfer pobl o oedran pensiwn neu bobl anabl.

Os ydych wedi'ch cofrestru'n ddall gan awdurdod lleol a bod eich cais yn seiliedig ar eich dallineb, neu os ydych yn cael budd-dal (a restrir isod) oherwydd yr anabledd a nodir yn y cais, yna nid oes angen i neb ategu eich cais. Rhaid i chi gwblhau rhan 4B neu 4C.

Budd-daliadau:

- Cyfradd uwch o elfen symudedd lwfans byw i'r anabl
- Cyfradd uwch o elfen symudedd y taliad annibyniaeth personol
- Taliad annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Rhaid i'ch dirprwy fynd i'ch gorsaf bleidleisio leol i bleidleisio ar eich rhan. Os na all eich dirprwy gyrraedd yr orsaf bleidleisio, gall wneud cais i bleidleisio drwy'r post ar eich rhan. Gall wneud cais i wneud hyn tan **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais**. Gall gysylltu â'r swyddfa cofrestru etholiadol i gael rhagor o fanylion ac i ofyn am ffurflen gais arall. Am fanylion cyswllt, ewch i dyleidlaisdi.co.uk
- Caiff eich dirprwy gerdyn pleidleisio drwy ddirprwy sy'n dweud wrtho ble a phryd i bleidleisio ar eich rhan. Dylech ddweud wrth eich dirprwy sut rydych am iddo bleidleisio ar eich rhan, er enghraifft, pa ymgeisydd, plaid neu ganlyniad. Os byddwch yn gallu mynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio wedi'r cyfan, gallwch bleidleisio eich hun ar yr amod nad yw eich dirprwy eisoes wedi gwneud hynny neu nad yw wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post.

Datganiad preifatrwydd

Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol ond yn defnyddio'r wybodaeth a rowch iddo at ddibenion etholiadol. Bydd yn cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Ni fydd yn rhannu gwybodaeth bersonol amdanoch chi nac unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei darparu am bobl eraill o bosibl ag unrhyw unigolyn na sefydliad arall oni bai bod yn rhaid iddo yn ôl y gyfraith.

Sail gyfreithiol casglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd ac arfer awdurdod swyddogol a roddir i Swyddog Cofrestru Etholiadol fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig.

Caiff rhywfaint o'r wybodaeth a gesglir yn y ffurflen hon ei dosbarthu'n ddata personol categori arbennig. Fe'i prosesir er budd sylweddol y cyhoedd fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig. Er mwyn prosesu'r math hwn o wybodaeth, rhaid bod gan y Rheolydd Data ddogfen bolisi berthnasol sy'n nodi sut yr ymdrinnir â'r wybodaeth hon.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd Data. I gael rhagor o wybodaeth am brosesu data personol, dylech gyfeirio at ei hysbyseb preifatrwydd ar ei wefan. Mae cyfeiriad ei wefan a'r manylion cyswllt ar gael yn dyleidlaisdi.co.uk

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd anabledd

Dim ond un person a all wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy gan ddefnyddio'r ffurflen hon

Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU. Pan fyddwch wedi cwblhau pob adran a llofnodi'r ffurflen eich hun, anfonwch hi i'ch swyddfa cofrestru etholiadol. Mae ei chyfeiriad yn dybleidlaisdi.co.uk

1 Amdanoch chi

Cyfenw

Enw(au) cyntaf (yn llawn)

Eich cyfeiriad (ble rydych wedi cofrestru i bleidleisio)

Cod post

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

Mae nodi eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn yn rhoi ffordd gyflym a hawdd i ni gysylltu â chi ynglŷn â'ch cais.

2 Ynglŷn â'ch dirprwy (y sawl rydych wedi'i ddewis i bleidleisio ar eich rhan)

Enw llawn

Perthynas deuluol (os o gwbl)

Cyfeiriad llawn

Cod post

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

3 Am faint yr hoffech gael pleidlais drwy ddirprwy?

Hoffwn bleidleisio drwy ddirprwy (ticiwch un blwch yn unig):

am gyfnod amhenodol (pleidlais drwy ddirprwy barhaol)

am y cyfnod

rhwng
D D M M B B B B

a
D D M M B B B B

4 Pam rydych am bleidleisio drwy ddirprwy?

Darllenwch y nodiadau ar y tudalennau blaenorol a chwblhewch naill ai A, B neu C.

A – Ni allaf fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio oherwydd yr anabledd canlynol:

B – Ni allaf fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio oherwydd fy nallineb. Rwyf wedi fy nghofrestru'n ddall gan (yr awdurdod lleol canlynol):

C – Ni allaf fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio oherwydd fy anabledd yr wyf yn cael budd-dal ar ei gyfer. Nodwch pa rai o'r budd-daliadau ar dudalen 2 rydych yn eu cael a'ch anabledd:

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd anabledd

5 Eich dyddiad geni a datganiad

Datganiad: Rwyf wedi gofyn i'r unigolyn rwyf wedi'i enwi'n ddirprwy a gallaf gadarnhau ei fod yn barod i bleidleisio ar fy rhan ac y gall wneud hynny.

Hyd y gwn i, mae'r manylion ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir. Deallaf ei bod yn drosedd rhoi gwybodaeth anwir ar y ffurflen hon, ac y gallwn gael fy ngharcharu am hyd at ddwy flynedd a/neu gael dirwy.

Dyddiad geni: Nodwch eich dyddiad geni yn y blychau isod gan ddefnyddio inc du.

D	D	M	M	B	B	B	B

Llofnod: Llofnodwch isod gan ddefnyddio inc du, gan gadw o fewn y llinellau llwyd.

Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.

6 Dyddiad y cais

Dyddiad heddiw

D	D

M	M

B	B	B	B

7 Ategu eich cais

Darllenwch y nodiadau er mwyn gweld pwy all ategu'r cais hwn. Cwblhewch naill ai 7A, 7B, 7C, neu 7D ar dudalennau 5 - 6:

Cwblhewch **7A** os ydych yn darparu gofal a/neu'n trin yr anabledd a nodir yn y cais, a'ch bod yn:

- ymarferydd meddygol cofrestredig (gan gynnwys deintydd, optegydd, fferyllydd, osteopath, ceiropractydd neu seicolegydd)
- nyrs gofrestrdig
- gweithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig

Cwblhewch **7B** os ydych yn darparu gofal, triniaeth a/neu wedi trefnu gofal neu driniaeth o ran yr anabledd a nodir yn y cais, a'ch bod yn:

- weithiwr cymdeithasol cofrestredig

Cwblhewch **7C** os ydych yn:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru fel rheolwr cartref gofal preswyl
- warden eiddo a ddarperir ar gyfer pobl o oedran pensiwn neu bobl anabl

Cwblhewch **7D** os ydych yn:

- rheolwr iechyd meddwl cofrestredig neu ei gynrychiolydd

Nid oes angen i'r cais gael ei ategu os yw Rhan 4B neu 4C yn gymwys.

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd anabledd

7A Os ydych yn darparu gofal a/neu'n trin yr anabledd a nodir yn y cais, a'ch bod yn:

- ymarferydd meddygol cofrestredig (gan gynnwys deintydd, optegydd, fferylllydd, osteopath, ceiropractydd neu seicolegydd)
- nyrs gofrestrdedig
- gweithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig

Enw llawn y sawl sy'n ategu eich cais

Cyfeiriad y sawl sy'n ategu eich cais

Cod post

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

Amod cymhwyso'r sawl sy'n ategu eich cais

Datganiad:

- Rwy'n darparu gofal a/neu'n trin yr ymgeisydd am yr anabledd a nodir yn y cais.
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
 - mae anabledd yr ymgeisydd wedi'i nodi yn y cais ac ni ellir disgwyl iddo yn rhesymol fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio na phleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
 - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod amhenodol neu tan:

D	D	M	M	B	B	B	B

Llofnod y sawl sy'n ategu'r cais

Dyddiad heddiw

D	D	M	M	B	B	B	B

7B Os ydych yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig sy'n darparu gofal, triniaeth a/neu wedi trefnu gofal neu gymorth o ran yr anabledd a nodir yn y cais

Enw llawn y sawl sy'n ategu eich cais

Cyfeiriad y sawl sy'n ategu eich cais

Cod post

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

Amod cymhwyso'r sawl sy'n ategu eich cais

Datganiad:

- Rwy'n darparu gofal a/neu'n trin yr ymgeisydd, neu wedi trefnu gofal neu gymorth ar gyfer yr ymgeisydd, am yr anabledd a nodir yn y cais.
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
 - mae anabledd yr ymgeisydd wedi'i nodi yn y cais ac ni ellir disgwyl iddo yn rhesymol fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio na phleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
 - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod amhenodol neu tan:

D	D	M	M	B	B	B	B

Llofnod y sawl sy'n ategu'r cais

Dyddiad heddiw

D	D	M	M	B	B	B	B

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd anabledd

7C Os ydych wedi'ch cofrestru fel rhywun sy'n rhedeg cartref gofal preswyl, neu'n warden eiddo a ddarperir ar gyfer pobl o oedran pensiwn neu bobl anabl

Enw llawn y sawl sy'n ategu eich cais

Cyfeiriad y sawl sy'n ategu eich cais

Cod post

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

Amod cymhwysu'r sawl sy'n ategu eich cais

Datganiad:

- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
 - mae anabledd yr ymgeisydd wedi'i nodi yn y cais ac ni ellir disgwyl iddo yn rhesymol fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio na phleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
 - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod amhenodol neu tan:

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>		
D	D	M	M	B	B	B	B

Llofnod y sawl sy'n ategu'r cais

Dyddiad heddiw

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>		
D	D	M	M	B	B	B	B

7D Os ydych yn rheolwr iechyd meddwl cofrestredig neu ei gynrychiolydd

Enw llawn y sawl sy'n ategu eich cais

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

Rôl y sawl sy'n ategu'r cais yn yr ysbyty lle mae'r ymgeisydd yn cael triniaeth

Datganiad:

- Rwyf wedi fy awdurdodi i ategu'r cais hwn
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
 - mae anabledd yr ymgeisydd wedi'i nodi yn y cais ac ni ellir disgwyl iddo yn rhesymol fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio na phleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
 - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod amhenodol neu tan:

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>		
D	D	M	M	B	B	B	B

Llofnod y sawl sy'n ategu'r cais

Dyddiad heddiw

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>		
D	D	M	M	B	B	B	B